

Ymgynghoriad ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy

Atodiad i'r Ddogfen Ymgynghori Statudol 23.09.25

Data Disgyblion – Nodyn Esboniadol Rhagamcanion

Mae rhagamcanion niferoedd disgyblion yn seiliedig ar wybodaeth a gedwir gan ddata ystadegol Systemau Gwybodaeth Reoli (SGR) ar adeg ysgrifennu'r adroddiad ymgynghori. Mae'r rhagamcanion niferoedd disgyblion a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori statudol yn seiliedig ar ddata o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2025. NID yw rhagamcanion yn niferoedd disgyblion gwirioneddol a fydd ar y gofrestr yn ystod y blynyddoedd academaidd penodedig. Mae niferoedd gwirioneddol ar y gofrestr yn cael eu diweddarau bob blwyddyn ar ôl casglu data CYBLD ym mis Ionawr.

Pan ysgrifennwyd y ddogfen ymgynghori, roedd y rhagamcanion yn dangos y byddai 6 disgybl yn Froncysyllte ym mlwyddyn academaidd 2025-26, 39 o ddisgyblion yn Pentre ym mlwyddyn academaidd 2025-26 a 49 o ddisgyblion yn y Garth ym mlwyddyn academaidd 2025-26.

Niferoedd Disgyblion – Niferoedd Gwirioneddol ar y Gofrestr – Medi 2025

Ym mis Medi 2025, pan ddechreuodd y flwyddyn academaidd newydd, mae llai na'r hyn a ragwelwyd yn Froncysyllte (4 disgybl), yr un nifer ag a ragwelwyd yn Pentre (39 o ddisgyblion) a mwy na'r hyn a ragwelwyd yn y Garth (57 disgybl).

Goblygiadau Ariannol - Nodyn Esboniadol

Mae'r cyfrifiadau ariannol yn seiliedig ar Gynllun Cyllideb cymeradwy Ffederasiwn Ysgolion Dyfrdwy ar gyfer 2025/26, sy'n defnyddio niferoedd disgyblion o ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2025. Fodd bynnag, mae cyfrifiad CYBLD Medi 2025 yn dangos gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Froncysyllte o 11 disgybl ar y gofrestr (data CYBLD Ionawr) i 4 disgybl ar y gofrestr (Medi 2022). Mae'r effaith o ganlyniad fel a ganlyn:

- Byddai dyraniad cyllideb 2026/27 yn gostwng o £204,130 i £185,957 (gostyngiad o £18,173). Dogfen Ymgynghori Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy - Opsiwn 2, tudalennau 13, 14 a 15.
- Byddai'r gyllideb ychwanegol oherwydd disgyblion sy'n trosglwyddo o Froncysyllte i Pentre a Garth yn gostwng o £20,880 i £16,704 (gostyngiad o £4,176). Dogfen Ymgynghori Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy - Opsiwn 2, tudalennau 13, 14 a 15.
- Byddai cau Froncysyllte yn arwain at arbediad cyllidebol o £39,456 yn 2026/27 yn hytrach na £57,629 (gostyngiad o £18,173). Dogfen Ymgynghori Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy - Opsiwn 2, tudalen 15.

Mae'r uchod yn seiliedig ar ragdybiaeth y byddai'r holl ddisgyblion a ddadleolwyd o Ysgol Gynradd Froncysyllte yn symud i ysgol arall yn y ffederasiwn. Os nad yw hyn yn wir, byddai cyllid AWPU yn symud i'r ysgol y mae'r disgybl wedi'i ddadleoli yn cael ei dderbyn iddi.